Cofnodion cryno – Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Hydref 2021

Amser: 10.35 – 12.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12557

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	David Rees AS (Cadeirydd) Rhys ab Owen AS Janet Finch-Saunders AS Peredur Owen Griffiths AS Rhianon Passmore AS
Tystion:	Bob Posner, Comisiwn Etholiadol Kieran Rix, Comisiwn Etholiadol Dame Elan Closs Stephens CBE, Comisiwn Etholiadol Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol
Staff y Pwyllgor:	Alun Davidson (Clerc) Daniel Collier (Dirprwy Glerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Joyce Watson a dirprwyodd Rhianon Passmore ar ei rhan.

1.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.4 Er y bydd munud o dawelwch yn ystod trafodion Cyfarfod Llawn yr wythnos hon er cof am Syr David Amess AS, roedd y Cadeirydd am fynegi cydymdeimlad y Pwyllgor.

2 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022/23 a'i gynllun pum mlynedd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol i'r cyfarfod a diolchodd iddo am gyflwyno ei amcangyfrif ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 a'i gynllun pum mlynedd yn gynnar.

2.2 Holodd y Pwyllgor y Comisiwn Etholiadol yn fanwl ar ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2022-23 a'i gynllun corfforaethol pum mlynedd.

2.3 Nododd y Pwyllgor femorandwm gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gynnydd y Comisiwn Etholiadol wrth ymgysylltu â phleidleiswyr ifanc yng Nghymru, mater sydd o ddiddordeb arbennig i'r Senedd ar ôl gostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru.

2.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog ar yr amcangyfrif a'r cynllun fel rhan o'r ymgynghoriad sydd ei angen o dan baragraff 16A(8)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 17.42(vi).

4 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022/23 a'i gynllun pum mlynedd: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.